Localgiving

# CANLLAW I GODI YMWYBYDDIAETH, DATBLYGU RHWYDWAITH AC ANNOG YMGYSYLLTU

## PAM MAE HYN YN ALLWEDDOL?

**Mae'n hanfodol i elusen sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn y mae'n ei wneud. Dyma'r cam cyntaf i ddatblygu rhwydwaith mwy, sy'n sylfaen ar gyfer datblygu gweithgareddau ymgysylltu a chyflwyno ymgyrchoedd codi arian.**

## PA YMWYBYDDIAETH SYDD ANGEN EI CHODI?

**Mae arnoch angen i'r rhai a ddylai ryngweithio â'ch elusen wybod beth rydych chi'n ei wneud, pam rydych chi'n ei wneud, beth yw'r effaith, ble mae'r gwasanaeth ar gael a sut i gael gwybod mwy. Bydd eich rhwydwaith yn tyfu wrth i chi gysylltu â phobl berthnasol.**

## 1 YMCHWILIO A CHYNLLUNIO

Mae'n bwysig ystyried hanes a sefyllfa bresennol eich elusen. Datblygwch strategaeth realistig yn seiliedig ar ymchwil, data a chyfweliadau. Gwnewch archwiliad, dadansoddiad SWOT (cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) a llunio achos dros gael cefnogaeth. Lluniwch y daith ddelfrydol ar gyfer cefnogwr newydd.

## 2 PWY I GYRRAEDD

Nodwch pwy yw'r rhoddwyr mwyaf tebygol a nodi sut gallant glywed am yr elusen. Ble mae'r gynulleidfa yn lleol ac yn genedlaethol? Dylech gynnal dadansoddiad o gystadleuwyr i weld y rhwydweithiau y mae elusennau tebyg wedi ymgysylltu â nhw.

## 3 SUT I'W CYRRAEDD

Dylech ddeall eich capasiti, eich adnoddau a'ch rhwydweithiau mewnol. Lluniwch gynnig sy'n dwyn perswâd yn seiliedig ar ddatganiad cenhadaeth. Profwch y cynnig, cofnodi'r adborth a gwneud gwelliannau.

## 4 HYRWYDDO

Lluniwch ddeunyddiau hyrwyddo ac ewch ati i dynnu sylw at yr elusen. Mynnwch sylw, esboniwch y broblem, nodwch pam y dylent boeni a sut rydych chi'n gwneud gwahaniaeth. Sicrhewch fod ganddynt ddiddordeb yn eich gwaith cyn eu gwahodd i weithredu. Dylech gyd-fynd â digwyddiadau a dyddiau codi ymwybyddiaeth presennol. Trefnwch gynnwys dwyieithog ar gyfer y wasg leol a'r cyfryngau cymdeithasol.

## 5 YMGYSYLLTU AR WAITH

Mae cadw a meithrin rhoddwyr yn costio llai na chwilio am rai newydd. Lluniwch berthynas dda ac arwain unigolion i'r lefel nesaf o ymgysylltu. Cofiwch eu trin fel partneriaid hirdymor sy'n rhannu'r un angerdd a dangoswch effaith eu cefnogaeth. Sicrhewch eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy eu hannog i'ch dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol a thanysgrifio i gylchlythyrau. Gosodwch dargedau, anfon nodiadau atgoffa ar gyfer y calendr ac olrhain cynnydd. Adolygwch eich gweithgareddau yn rheolaidd.